Jeremy Miles AS/MS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JMEWL/12118/21

David B Jones OBE DL & Philip Blaker
Chair & Cheif executive
Qualifications Wales

Loren.Taylor@qualificationswales.org

28 Ionawr 2022

Annwyl David a Philip,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 21 Rhagfyr 2021 yn nodi'r gwaith sydd wedi'i wneud ers mis Hydref I ddatblygu cymwysterau Cymraeg ar gyfer y dyfodol. Rwy'n falch o glywed bod y gwaith hwn wedi cynnwys yr ystod o ran-ddeiliaid y cyfeiriwyd atynt yn eich llythyr ac rwy'n gobeithio y bydd yr ymgysylltu hwn yn parhau wrth i chi barhau i adeiladu ar eich gwaith yn y maes hwn. Rwyf hefyd yn ddiolchgar am y cydweithio agos â'm swyddogion.

Rydych wedi gofyn am eglurder ynghylch blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer dysgu'r Gymraeg. Mae fy safbwynt ar hyn yn glir – rwyf am weld continwwm o addysgu a dysgu Cymraeg i bob dysgwr hyd at 25 oed. Mae TGAU a Safon Uwch yn rhan hollbwysig o'r continwwm hwn ond nid ydynt yn cynrychioli diwedd y daith. Yn Rhaglen Waith *Cymraeg 2050* 2021-26 rwy'n ymrwymo i ddatblygu cynigion i warantu bod pobl ifanc 16-25 oed yn gallu cael mynediad am ddim i gyrsiau Cymraeg drwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. er mwyn iddynt allu adeiladu ar y sgiliau iaith a ddysgwyd eisoes mewn addysg statudol a dod yn siaradwyr Cymraeg hyderus. Mae hwn yn ystyriaeth gydol oes o ddysgu Cymraeg a byddaf yn gwneud datganiad ar 10 Chwefror yn nodi sut y caiff hyn ei gyflawni.

Rwy'n cydnabod y bydd dysgwyr sydd wedi cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn cyrraedd hyfedredd yn y Gymraeg yn gynt na dysgwyr sy'n dysgu Cymraeg mewn ysgolion a lleoliadau cyfrwng Saesneg. Hoffem ddileu'r cysyniad o "ail iaith" - mae'r ddau gymhwyster yn cynrychioli gwahanol gamau ar daith gyffredin a'n hamcan yw i leihau'r bwlch hynny dros amser. Bydd yn hanfodol bod y berthynas rhwng y cymwysterau hyn yn glir ac yn adlewyrchu ein gweledigaeth o gontinwwm dysgu Cymraeg sy'n agored i bob dysgwr. Bydd angen ystyried yn ofalus sut y caiff hyn ei gyfleu.

O ran eich cynnig ar gyfer y cymhwyster 'pontio'. Rwy'n deall y meddylfryd y tu ôl i gyflwyno cymhwyster ychwanegol ochr yn ochr â'r ddau gymhwyster newydd i atgyfnerthu ac ehangu sgiliau iaith Gymraeg. Rwy'n cefnogi eich dyhead i wneud rhagor o waith yn y maes hwn, fydd yn adlewyrchu ein gweledigaeth o gontinwwm dysgu Cymraeg. Rwy'n gobeithio y byddwch yn parhau i ymgysylltu â'm swyddogion wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n gobeithio bod hyn yn ymateb i’ch prif bryderon ac yn rhoi'r eglurder sydd ei angen arnoch i wneud penderfyniad mewn perthynas â'r cymwysterau a fydd yn cael eu datblygu fel rhan o Cymwys ar gyfer y dyfodol. Bydd cael continwwm clir i bob dysgwr ar draws pob lleoliad yn gam pwysig i gau’r bwlch rhwng addysgu a dysgu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Rhaid inni edrych ar gryfhau’r ddau sector heb gyfaddawdu ar gyrhaeddiad dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg.

Yn gywir,



Jeremy Miles AS/MS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language